PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 14 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Aelodau Annibynnol: , Hugh Thomas, Gavin McArthur a/ac David Price |
| | Y Cynghorwyr Howells, McGarry, Mitchell, Murphy a/ac Walker |

81 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Arundale.

82 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Howells | Eitem 9.1 | Llywodraethwr Ysgol |

83 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2017 fel gwir gofnod.

Materion yn codi

Cadarnhaodd Pennaeth Cyllid bod y Pwyllgor wedi derbyn rhagor o fanylion yr archwiliad i restrau offer Canolfannau Ieuenctid.

Cyllid
84 : CYLLID

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ddiweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Bu i'r Cyfarwyddwr grynhoi sefyllfa mis 9, cyllideb 2017/18 a'r sefyllfa tymor canolig.

Cyflwynwyd adroddiad monitro mis 9 i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2017. Roedd mis 9 yn dangos sefyllfa gytbwys â'r gyllideb, gwelliant o £537,000 o'i chymharu â mis 6.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y sefyllfa gyffredinol yn parhau i adlewyrchu'r pwysau ariannol a'r diffygion yn erbyn targedau arbedion cyllideb Dywedwyd bod diffyg o £6.253 ar arbedion y gyllideb, sef £25.892. Roedd y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi herio cyfarwyddiaethau i gymryd camau gweithredu er mwyn gostwng gorwario.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi amrywiad net o £18.5 miliwn yng Nghynllun Cyfalaf 2016/17. Roedd rhan fwyaf yr amrywiad hwn yn sgil llithro yn cynnwys amrywiad sylweddol mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Cymeradwywyd cyllideb 2017/18 gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2017.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y cyfeiriwyd at y gofyn am dorri'r gyllideb gan £24.880 fel a ganlyn wrth osod cyllideb 2017/18:

- cap o 30% ar dwf ysgolion (heb ystyried nifer y disgyblion) - £1.853 miliwn
- Defnyddio arian wrth gefn wedi ei glustnodi - £1.500 miliwn
- Arbedion - £17.007 miliwn
- Codi'r Dreth Gyngor gan 3.7% - £4.520 miliwn

Mesurwyd risg cynigion arbedion a dderbyniwyd yng nghyllideb 2017/18, â chyfanswm o £17.007 miliwn, er mwyn gweld pa mor debygol ydy eu gwireddu.   Ni roddwyd unrhyw gynnig yn y categori risg ‘coch'.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a/neu sylwadau am yr adroddiad.  Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Mynegodd Aelodau bryderon ynghylch dileu arbedion "na ellir ei wireddu".
  Rhoddwyd gwybod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ei bod yn amhosibl dileu pob risg yn gyfan gwbl er y gwneir asesiadau risg.  Os nad oes modd  gwireddu arbedion, ceir dyfarniad ar ddileu'r elfen nas gwireddwyd ai peidio.  Fodd bynnag, ni ddylid gwneud y penderfyniadau hyn ar chwarae bach.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod manylion pellach y risgiau coch / oren yn adroddiad cyllideb 2017/18 a bod arian wrth gefn ar gyfer arbedion nas gwireddir.

- Sylwodd Aelodau ar y cynnydd mewn swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn yn dilyn cwtogi ar swyddi felly dros lawer o flynyddoedd.
  Bu’r cynnydd net diweddar, yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf, yn sgil gofynion ar y gwasanaeth yn ymateb i ofynion Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

- Gofynnodd Aelodau a fyddai'r cynigion arbedion yn cael eu herio’n gryf yn allanol.
  Dywedodd swyddogion fod cynigion arbedion 2017/18 wedi eu herio dros gyfnod hirach.

- Cadarnhaodd Swyddogion y defnyddir dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn tracio effaith y swyddi ychwanegol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Cadarnhaodd Swyddogion bod yr holl gynigion arbedion wedi eu hystyried gydag Asesiad O’r Effaith Ar Gydraddoldeb.

PENDERFYNWYD – nodi'r wybodaeth ariannol am sefyllfa fonitro 2016/17, canlyniad cyllideb 2017/18 a’r sefyllfa tymor canolig.

85 : DIWEDDARIAD AR BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r polisïau cyfrifo drafft y Datganiad Cyfrifon 2016/17 bydd yn seiliedig arnynt.  Manylwyd y prif newidiadau a godwyd o God Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) 2016/17 yn ogystal â gwybodaeth yn amlygu diweddariadau i God Ymarfer CIPFA wedi 2016/17 sy’n debygol o effeithio ar y cyfrifon.   Cynhwyswyd manylion y prif newidiadau a gynigiwyd yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau hefyd yn yr adroddiad.

Cyflwynodd swyddogion yr adroddiad a rhoi crynodeb o’r prif newidiadau.

Gofynnodd Aelodau am eglurhad o effaith llawn y cynnig i newid IFRA 9 Offerynnau Ariannol o 2018/19, ac yn arbennig yr effaith a gâi hyn ar werth Bws Caerdydd. Cytunodd swyddogion i asesu'r cynnig a'i effaith tebygol ac i adrodd yn ôl mewn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD – nodi'r polisïau a rhagdybiadau cyfrifo drafft a'r diweddariad o ran newidiadau i gyfrifon y dyfodol.

Llywodraethiant a Rheoli Risg
86 : LLYWODRAETHU A RHEOLI RISG

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio drafft ar gyfer 2016/17 a baratowyd yn dilyn adolygiad o'r agenda a'r cofnodion yn ystod y flwyddyn ariannol. Dywedwyd wrth Aelodau bod yr Adroddiad Blynyddol yn gwneud sylwadau ar ac yn cynnwys canlyniadau Hunan Asesiad y Pwyllgor Archwilio a gwblhawyd ym mis Medi 2016.

Gofynnwyd i Aelodau ystyried yr Adroddiad Blynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli eu barn yn addas a'i fod yn adlewyrchiad cywir o berfformiad y Pwyllgor yn y flwyddyn ariannol.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2016/17.

87 : DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT

Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol cyn ei gymeradwyo ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol. Mae gofyn hefyd i'r Pwyllgor Archwilio ystyried trefniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor o'u cymharu â fframwaith llywodraethiant da.

Roedd y Cyngor wedi defnyddio'r fframwaith hwn i ganfod tystiolaeth yn erbyn y prif egwyddorion a'r rhai ategol a nodir yn yr adroddiad. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn crynhoi sut mae'r Cyngor yn asesu wrth gymharu â'r fframwaith llywodraethiant trwy dair prif elfen:

- Datganiadau gan yr Uwch Reolwyr, y Rheolwr Archwilio a'r Pwyllgor Archwilio;
- Gwybodaeth ategol a thystiolaeth;
- Adolygiad gan Uwch Reolwyr ar broblemau sylweddol llywodraethiant y Cyngor.

Ym mis Tachwedd 2016, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio grynodeb o ymatebion i Ddatganiad Sicrwydd yr Uwch Reolwyr ganol y flwyddyn. Dywedodd y Pwyllgor fod nifer sylweddol o'r ymatebion yn adlewyrchu datgelu bod elfennau "wedi eu gweithredu'n llawn" mewn llawer o feysydd. Cytunwyd y byddai swyddogion yn adolygu'r prosesau ac yn rhoi darlun cliriach o'r graddau o lywodraethiant da sy'n weithredol.

Dywedwyd wrth Aelodau bod pro forma'r Datganiad Sicrwydd yr Uwch Dîm Rheoli dan adolygiad ar hyn o bryd a chytunwyd ar broses mwy heriol ac ar sail tystiolaeth gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer sefyllfa diwedd y flwyddyn. Bydd y Pwyllgor Archwilio'n derbyn dadansoddiad o'r ymatebion yn Natganiad Sicrwydd yr Uwch Dîm Rheoli ym mis Mehefin 2017.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn berchen ar Gynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys y problemau llywodraethiant mwyaf sylweddol. Adolygir y Cynllun Gweithredu ddwywaith y flwyddyn gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio'r Cynllun Gweithredu canol y flwyddyn ym mis Ionawr 2017.

Dywedodd Aelod bod angen atgyfnerthu atebolrwydd dros y canlyniadau, efallai trwy gysylltu â Disgrifiadau Swydd ac amcanion DPP. Hefyd, roedd angen dealltwriaeth well o ystyr atebolrwydd o ran beth fyddai canlyniadau methiannau a llwyddiannau. Dywedodd Swyddogion bod y dull yn dilyn sicrwydd rhaeadrol a bod atebolrwydd yn rhan amlwg o hyn, fel y dengys Datganiad Sicrwydd yr Uwch Dîm Rheoli.

Cytunodd swyddogion i ddosbarthu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor o ran sut y mae Datganiad Sicrwydd yr Uwch Dîm Rheoli wedi ei ddiwygio'n gweithio.

Yn dilyn cais gan Aelod o'r Pwyllgor, cytunodd Swyddogion i ystyried pa ffordd fyddai orau o sicrhau bod sicrwydd allanol a dderbyniwyd ac a fanylir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn fwy amlwg yn eu natur.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

88 : DIWEDDARIAD AR REOLI RISGIAU DROS DRO

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi newyddion am y cynnydd a wnaed er mwyn gwella sut y datblygir risgiau yn 2016/17 ac yn rhoi diweddariad ar Gofrestr Risg Gorfforaethol (y Gofrestr Risg) Chwarter 3.

Adolygwyd Cofrestr Risg Chwarter 3 gan yr Uwch Dîm Rheoli ym mis Ionawr 2017. Atodwyd y Map Risg Corfforaethol, y Gofrestr Risg a chrynodeb y Gofrestr Risg at yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod risg corfforaethol wedi bod yn datblygu mewn cysylltiad â Diogelwch ar y We ers derbyn newyddion diwethaf gan y Pwyllgor ar 29 Tachwedd 2016. Trafodwyd y risg yn Grŵp Llywio Rheoli Risg a'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Ionawr 2017 ac mae wrthi'n cael ei asesu a'i ddrafftio i'w gynnwyd yn y Gofrestr Risg adeg y sefyllfa diwedd y flwyddyn.

Gofynnwyd i aelodau nodi bod y risg Rheoli Gwastraff wedi ei leihau o 'Goch' i 'Goch/Oren' yn Chwarter 3 i gydnabod y cynnydd a wnaed wrth reoli'r risg hyd yn hyn. Mae pob mesur risg arall yn aros yr un peth.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau am yr adroddiad. Holodd Aelod a ddylid adolygu disgrifiad y risg: 'Peidio â gostwng cost darparu Gwasanaethau Cymdeithasol'. Derbyniodd Swyddogion y pwynt hwn a chytuno i addasu'r disgrifiad risg er mwyn adlewyrchu'r hyn a oedd wedi ei wneud i fynd i'r afael â'r risg.

Awgrymodd Aelodau bod y risg 'Platfformau TGCh yn anaddas/ddim yn gyfoes' er mwyn cydnabod amserlenni datrys y Gofrestr Risg. Dywedodd swyddogion fod y risg hwn yn gylchol. Nid ydy systemau TGCh yn parhau'n hir ac felly mae'r risg hwn yn barhaus.

Mynegodd Aelod ddiddordeb mewn ennill dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng cofrestrau risg cyfarwyddiaethau a'r Gofrestr Risg ac anogodd ragor o her i'r cyfarwyddiaethau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Gofrestr Risg yn cynrychioli'r holl risgiau a ganfuwyd a'i

fod yn cynrychioli barn yr Uwch Dîm Rheoli ar y cyd.  Er enghraifft, mae 11 risg yn adran Risg Diogelwch ar y We.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

Swyddfa Archwilio Cymru
89 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Matthew Coe a Steve Barry o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Cyfarchodd Matthew Coe y Pwyllgor a rhoddodd ddiweddariad ar weithgarwch Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi ei gwblhau ac ar y gweill.  Gwahoddwyd Aelodau i wneud sylwadau ar y diweddariad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Dywedodd Matthew Coe y bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n rhoi sylwadau ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol   ac yn rhoi newyddion eto am ei gweithgarwch yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin.

Rhoddodd Steve Barry drosolwg ar astudiaethau'r Swyddfa Archwilio ar Lywodraethau Lleol a wnaed trwy Gymru ac nid oedd yn benodol berthnasol i awdurdodau lleol unigol. Ni chofnodwyd unrhyw broblemau a oedd yn berthnasol i Gaerdydd.

Croesawodd y Pwyllgor y ddogfen oherwydd ei bod yn helpu Aelodau i ddeall swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

90 : DIWEDDARIAD AR DDATA MEINCNODI FFIOEDD

Wrth gyfeirio ar bwynt gweithredu o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor, dywedodd Matthew Coe fod data meincnodi yn dal i fod ar gael yn gyhoeddus o ran ffioedd wedi eu meincnodi yn erbyn ffioedd dinasoedd craidd eraill, mewn cyflwyniad gan y Swyddfa Archwilio i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2016.

Gofynnwyd i Aelodau nodi ei bod yn debygol y bydd ffioedd y Swyddfa Archwilio'n debygol o ostwng eto eleni a bod y gostyngiad mewn ffioedd archwilio perfformiad yn sylweddol. Awgrymwyd y dylid oedi ystyried ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru tan y cyfarfod nesaf, pan fyddai'r ffioedd yn hysbys.

Cytunodd y Pennaeth Cyllid i anfon y cyflwyniad eto yn cynnwys data meincnodi'r dinasoedd craidd ac i holi Aelodau am sylwadau.

PENDERFYNWYD:

(1) Oedi ystyried ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017/18 tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Mehefin 2017;

y byddai'r Pennaeth Cyllid yn anfon data meincnodi'r dinasoedd craidd i Aelodau'r Pwyllgor.

Rheoli'r Trysorlys

91 : RHEOLI'R TRYSORLYS

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi perfformiad Rheoli'r Trysorlys a datganiad sefyllfa ar 28 Chwefror 2017. Bu i Allan Evans ac Annette Simons draddodi crynhoad o'r adroddiad.

Dywedwyd wrth Aelodau mai prin y bu'r newid ers i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad perfformiad ar 27 Ionawr 2017 ac eithrio peth gostyngiad yn y benthyg.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

92 : ARFERION RHEOLI'R TRYSORLYS

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Pwyllgor Archwilio'r Cyngor sy'n gyfrifol dros y gwaith o graffu ar faterion cyfrifeg, archwilio a masnachol Strategaeth ac Arferion Rheoli'r Trysorlys. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn egluro Arferion Rheoli'r Trysorlys a fyddai'n weithredol o fis Ebrill 2017.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Arferion Rheoli'r Trysorlys yn seiliedig ar ofynion Cod Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg a'u bod hefyd yn ystyried cynnwys a awgrymwyd gan gynghorwyr Tîm Rheoli Trysorlys y Cyngor. Cafwyd adolygiad mewnol ar Arferion Rheoli'r Trysorlys ym mis Chwefror 2017. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

Archwiliad Mewnol
93 : ARCHWILIAD MEWNOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid newyddion ar gynnydd yr Archwiliad Mewnol er mwyn rhoi newyddion i'r Aelodau am waith yr adran Archwilio Mewnol hyd at 24 Chwefror 2017. Roedd yr adroddiad yn dangos perfformiad cynhyrchiant yr adran a'r sefyllfa o ran statws yr archwiliadau a'r datganiadau barn ar sicrwydd sydd wedi eu cwblhau.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod yr adroddiad wedi cofnodi 644 argymhelliad mewn 88 adroddiad a gyflwynwyd. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod 100% yr argymhellion risg

coch wedi eu derbyn. Bydd Cynllun Archwilio 2017/18 yn canolbwyntio ar sicrhau y gweithredir argymhellion yr archwiliadau a bydd yn flaenoriaeth gan y Cyngor.

Gofynnwyd i'r Aelodau sylwi bod Atodiad 1 yr adroddiad yn nodi'r adolygiadau i'r mesuriadau sicrwydd a weithredir. Diben y mesuriadau newydd ydy rhoi eglurhad a chysondeb i bob archwiliad a'r cleientiaid.

Bu i'r Pennaeth Cyllid grynhoi'r prif faterion sydd yn yr adroddiad. Yn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Cyllid yr adroddid am fanylion pellach unrhyw archwiliadau sylfaenol yn cynnwys canfyddiadau dros dro yn ystod amryw gyfnodau'r archwiliadau sy'n mynd rhagddynt yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Mehefin 2017.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

94 : CYNLLUN ARCHWILIAD MEWNOL 2017-18

Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2017, derbyniodd y Pwyllgor y Cynllun Archwiliad Mewnol Drafft 2017/18. Gofynnwyd i Aelodau ystyried a gwneud sylwadau am y cynllun drafft. Dywedwyd wrth Aelodau bod y Cynllun wedi datblygu eto ac fe'i cyflwynwyd ar gyfer ei gymeradwyo. Yn ystod trafodaethau â'r Uwch Dîm Rheoli, defnyddiwyd methodoleg ar sail risg i lywio'r cynllun archwiliad, sy'n nodi'n glir pa weithgareddau archwilio mewnol a fydd yn digwydd yn 2017/18.

Yn dilyn cais gan y Pwyllgor, cytunodd y Pennaeth Cyllid y bydd hyfforddiant sefydlu ar gyfer aelodau newydd yn cynnwys briffio ar fethodoleg ar sail risg yr Archwiliadau Mewnol yn y dyfodol; byddai'r hyfforddiant sefydlu yn cynnwys aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio.

Gwnaeth Aelodau sylwadau ar neilltuo dyddiau ar gyfer astudiaethau Gwerth am Arian a'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ran llywodraethiant a gwneud penderfyniadau. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor yr adolygir y Cynllun Archwilio yn ystod y flwyddyn ac yr adroddir am unrhyw newidiadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol fel rhan o'r Adroddiad Ddiweddariad ar Gynnydd yr Archwiliadau.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18.

95 : CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Archwilio

96 : SIARTER ARCHWILIO MEWNOL 2017-18

PENDERFYNWYD – cymeradwyo Siartr Archwilio Mewnol 2017/18.

97 : GOHEBIAETH GRAFFU

Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2017, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan y pum Pwyllgor Craffu trwy adolygiad ar ohebiaeth gan y Cadeiryddion Craffu. Atgoffwyd Aelodau mai diben yr adroddiad oedd ystyried a phenderfynu a ydy unrhyw eitemau sydd yn yr ohebiaeth yn deilwng o ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor Archwilio.

Yng nghyfarfod mis Ionawr, mynegodd Aelodau bryderon ynghylch y risg o ddyblygu gwaith.  Penderfynodd y Pwyllgor Craffu y cytunodd yr Is Gadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid, ar ffurf wedi ei diwygio o gyflwyno gohebiaeth y Pwyllgor Craffu.

Dywedwyd wrth Aelodau bod adolygu cofnodion a gohebiaeth craffu yn arfer dda sydd eisoes yn digwydd fel rhan o'r swyddogaeth Archwiliad Mewnol er mwyn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer rhagdybiaethau cynllunio'r dyfodol a dosrannu adnoddau.  Mae Diweddariad ar Gynnydd yr Archwiliad Mewnol yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.  Felly cynigiwyd bod y Pwyllgor Archwilio'n gofyn i'r Pennaeth Cyllid sicrhau bod yr adroddiad archwilio'n cynnwys unrhyw eitemau perthnasol sy'n codi o'r Pwyllgorau Craffu.  Caiff unrhyw ohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chadeiryddion Craffu ei gyflwyno o hyd fel eitem sefydlog.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn cymeradwyo:

(1) Bod y Diweddariad ar Gynnydd yr Archwiliad Mewnol yn cynnwys y gwaith a wnaed wrth adolygu gohebiaeth craffu ac y'i hadroddir fel eitem sefydlog yn y dyfodol;

Y cyflwynir unrhyw ohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chadeiryddion Craffu o hyd fel eitem sefydlog.

98 : CAMAU SYDD ETO I'W CYFLAWNI

Dywedodd swyddogion bod y gymhariaeth rhwng telerau ac amodau Awdurdodau Lleol Cymru wedi ei dosbarthu i Aelodau ar ffurf dogfen gyfrinachol.  Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd y dylai unrhyw Aelod sydd am wneud sylwadau am y materion hyn gysylltu'n uniongyrchol â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol neu'r Pennaeth Cyllid.

99 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – nodi'r Diweddariad ar y Cynllun Gwaith

100 : MATERION BRYS

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

101 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Mehefin 2017 (yn amodol ar gytundeb yn y Cyngor Blynyddol ar 25 Mai 2017).

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified